# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2012** |
| Amser: | **08:30 - 08:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cafodd y cofnodion eu nodi gan y Pwyllgor ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3. Trefnu'r Busnes

### 3(i) Busnes yr wythnos hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mercher cyn y Ddadl Fer.

### 3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen dair wythnos Busnes y Llywodraeth.

### 3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 21 Mawrth 2012**

- Cynnig i ddirymu Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholidau Cyffredin) 2012 (30 munud)

**Dydd Mercher 25 Ebrill 2012**

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru (60 munud)

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

## 4. Deddfwriaeth

### 4(i) Confensiynau Deddfwriaethol yn y Pedwerydd Cynulliad

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes adroddiad drafft yn nodi'r confensiynau diwygiedig a ddylai gael eu cymhwyso wrth i bwyllgorau ystyried deddfwriaeth a chytunodd ar yr adroddiad.

## 5. Busnes Arall

### 5(i) Gweithredu Diwydiannol – Effaith ar fusnes ffurfiol Busnes y Cynulliad

Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ystyriaeth bellach i'w gynlluniau wrth gefn pe bai gweithredu diwydiannol yn digwydd ar 28 Mawrth.

Dywedodd Arweinydd y Tŷ y bydd y Llywodraeth yn symud y Cwestiynau i Weinidogion i ddydd Mawrth 27 Mawrth.

Dywedodd William Graham mai dewis ei grŵp ef fyddai cadw at yr holl fusnes ddydd Mercher 28 Mawrth. Cytunodd y Rheolwyr Busnes eraill mai eu dewis hwy fyddai rhoi lle i ddwy ddadl y gwrthbleidiau mewn Cyfarfod Llawn estynedig ddydd Mawrth 27 Mawrth. Awgrymodd Arweinydd y Tŷ y gallai'r cyfarfod ddechrau yn gynt nag arfer er mwyn cynnwys yr eitemau ychwanegol hyn o fusnes.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylai'r ddadl ynghylch adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Ddadl Fer gael eu gohirio tan ar ôl toriad y Pasg.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid neilltuo amser cyfarfod amgen i'r Pwyllgor Cyllid.

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi Datganiad Busnes drafft i adlewyrchu'r trafodaethau hyn, er mwyn eu hystyried yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.